

sefyllfaoedd a wnaeth argraff arni hwyr neu hwyrach yn ei dwylo'n troi'n lluniau i'w trysori.

Roedd wrth ei bodd yn gwyllo pobl a dywedodd unwaith 'Rwy'n dwlu at farchnadoedd, ciwiau bws, pobol yn croesi'r heol. Byddaf yn mynd yn rhan ohonynt ar unwaith. Petawn i'n mynd i mewn i gaffi a chael fod neb ynddo byddai'n rhaid i mi fynd allan!' Yn fy mam i, roedd ar ei gorau pan fyddai ei sylw o bobol yn symud o'i chof i'w dychymyg ac yna ei drosglwyddo i'w lluniau.

Roedd ganddi lygad craff ac yn llawer o'i lluniau mae'r awgrym mor bwysig â'r manylu. Dengys *Llun 4* lawer o bobl yn amlwg yn edrych ar orymdaith yn mynd heibio. Awgryma'r cefndir bod y gwylwyr yng nghanol tai a bywyd bob dydd gyda'r dillad ar y lein! Mae'r plant yn dal yn dyn wrth eu teganau, ac i gael gwell golwg o'r orymdaith, y mae un ar war ei dad. Defnyddiwyd dyfrlliw i goroni'r cyfan a'r 'lliw meddal yn awgrymu cyfoeth bywyd'.

Ar hyd ei hoes profodd Vera Bassett lawer o afiechyd personol ac am gyfnod hir bu'n gofalu am ei rhieni oedrannus. Nid rhyfedd felly, iddi ddweud wrth newyddiadurwr bod tristwch yn ei lluniau. *'I paint mainly sad*

paintings' oedd y sylw gwreiddiol. Naws y tristwch yna sydd yn *Llun 5* o'r ferch wedi dianc o ofalon bywyd i loches cynnes y sied - mae'r ei hyd yn oed yn rhoi'r argraff o unigrwydd a tristwch!

Nid llun hapus yw *Llun 6* ychwaith, ond mae'n gelfydd dros ben. Yn annodweddiadol, nid oes pensil ar ei gyfyl ond mae'r brws a'r dyfrlliw wedi creu cryfder o gymeriad.

Cipolwg yn unig sydd yma ar waith Vera Bassett - byddai'r stori gyflawn yn llawer gormod i un erthygl - ond gobeithiaf ei fod yn ddigon i greu archwaeth am weld a chlywed mwy am Gymraes greadigol ac i ychwanegu un o'i lluniau at y casgliad, efallai.



Llun 6 – Portread o Wraig

Eglwys Llangar ger Corwen

(*Parhâd o dudalen 11*)

pan symudodd fy nhaid (ar ochr fy mam) a'i deulu i ffermio yma yn 1899 hyd at 1925.

Yn ddiweddarach, roedd Blaengwnodl Uchaf yn gartref i'r diweddar Athro Syr Rees Davies, cyn Athro Hanes Canoloesol yn Rhydychen ac arbenigwr ar hanes Owain Glyndwr. Cofnododd hanes Cenedl y Cymry mewn cyd-destun mwy eang Prydeinig a Gwyddelig mewn llyfrau academiaidd ardderchog.

Rhoi'r gorau i'r Eglwys.

Erbyn 1854, roedd yna adrefnu ffiniau'r plwyf a chafodd pentref Cynwyd, hefo'i phoblogaeth o tua 650, ei ymgorffori i mewn i blwyf Llangar. Yn lle gwario llawer o arian ar Eglwys Llangar, a oedd wedi ei lleoli mewn lle anghyfleus ac angen ei hatgyweirio yn helaeth,



Murlun tu mewn i'r eglwys

penderfynwyd adeiladu eglwys newydd yng Nghynwyd, tua milltir i ffwrdd, lle roedd mwyafrif y boblogaeth yn byw.

Yn 1856 pan agorwyd Eglwys newydd yng Nghynwyd, caewyd drysau Eglwys Llangar, heblaw am gynnal ambell i oedfa unwaith y



Y galeri ar gyfer cantorion

flwyddyn ac ychydig o oedfaoedd claddu ynddi.

Dros y can mlynedd ddilynol, dirywiodd yr hen Eglwys yn araf a bu gordyfiant yn mygu'r fynwent. Erbyn 1960 roedd to yr Eglwys mewn perygl o gwmpo. Yn ffodus, daeth paentiadau wal yn dyddio o'r 15fed ganrif i'r golwg wrth i'r calcholech wisgo oddi ar y waliau, a sylweddolwyd hefyd fod yr hen eglwys yn cynnwys set lawn o ddodrefn o'r 18fed ganrif, hefo seddau blwch (box pews),

oriel i gantorion (*minstrel gallery*), a llawer nodweddiad eraill amrhisiadwy.

Adferiad.

Drwy gymorth y Swyddfa Gymreig ar y pryd, adnewyddwyd yr hen Eglwys a chynhaliwyd archwiliad o'r Eglwys a'r fynwent.

Rhan o'r gwaith archwilio oedd cofnodi, lle roedd hyn yn bosibl, yr arysgrifau ar y cerrig beddau yn y fynwent. Bum yn ffodus i gael

gwybodaeth am garreg fedd fy hen daid a nam o'r archwiliad yma a darganfod eu bedd wrth y llwybr, ychydig o lathenni o ddrws yr eglwys.

Erbyn 1991 roedd y gwaith adnewyddu wedi ei gwblhau ac mae hen Eglwys ganoloesol Llangar bellach, i'w gweld yn ei holl ogoniant. Mae wedi cael ei ddiogelu i genedlaethau'r dyfodol ac yn saff o dan warchodaeth CADW.

Mae'n werth ymweld â'r hen Eglwys ddiddorol yma!